Hysbysiad Preifatrwydd – Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn treialu gwasanaeth Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint yng Nghymru. Nod y peilot yw nodi canserau'r ysgyfaint yn gynharach y profwyd ei fod yn arwain at ganlyniadau gwell.

Darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn ofalus gan ei fod yn nodi'r sail y bydd unrhyw ddata personol rydym yn ei brosesu yn cael ei drin. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r mathau o ddata personol rydym yn eu casglu amdanoch chi a bydd yn esbonio sut a pham mae eich data personol yn cael eu defnyddio. Byddwn hefyd yn esbonio pa mor hir y bydd eich data yn cael ei gadw a phryd, pam a gyda phwy y gellir rhannu eich data.

Mae'r Hysbysiad yn nodi'r sail gyfreithiol sydd gennym ar gyfer prosesu eich data personol ac mae'n egluro effeithiau gwrthod darparu'r data personol y gofynnir amdano. Byddwn hefyd yn esbonio'r hawliau a'r dewisiadau amrywiol sydd gennych o ran eich data personol a sut y gallwch gysylltu â ni.

Pa ddata personol rydyn ni'n ei gasglu amdanoch chi ac o ble?

Bydd gwybodaeth o'ch apwyntiad brysbennu dros y ffôn, apwyntiad nyrsio, sgan CT posib a'ch practis meddyg teulu yn cael ei chadw ar gofrestr o bobl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd i ddarparu'r gwasanaeth hwn a monitro'ch anghenion ac ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r gofrestr yn dal eich enw llawn, rhif GIG, rhywedd, dyddiad geni, grŵp ethnig, rhifau ffôn, cyfeiriadau gohebiaeth, a manylion eich meddygfa, yn ogystal â manylion eich cofnod meddygol sy'n gysylltiedig ag iechyd yr ysgyfaint.

Gyda phwy rydym yn rhannu eich data personol?

Bydd Gwasanaeth Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint yn cadw gwybodaeth amdanoch chi a'ch gofal ysgyfaint i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth diogel ac o ansawdd. Mae'r gofrestr yn cael ei chynnal gan InHealth Ltd a'u his-gwmni, InHealth Intelligence, mae'r ddau gwmni yn Bartneriaid Busnes y GIG sydd wedi'u contractio gan y GIG i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Os ydych chi'n gymwys i gael sgan CT, bydd eich delweddau'n cael eu trosglwyddo'n ddiogel yn uniongyrchol i Aidence, offeryn canfod nodiwl ar yr ysgyfaint awtomataidd wedi'i is-gontractio, yna ymlaen i Iechyd y Galon a'r Ysgyfaint (HLH) gwasanaeth adrodd radiolegwyr wedi'i is-gontractio ac yna eu cyfathrebu i InHealth ac adran Radioleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Bydd InHealth yn cyhoeddi'r canlyniadau i chi yn uniongyrchol trwy lythyr.

Anfon llythyrau gwahoddiad a chanlyniad

I anfon llythyrau apwyntiad a llythyrau canlyniad, mae InHealth yn defnyddio gwasanaethau anfon llythyrau a ddarperir gan Synertec Ltd ac iMail (UK Mail o'r blaen) sy'n argraffu ac yn anfon ein llythyrau yn ddiogel trwy ddosbarth busnes y Post Brenhinol. Dim ond am gyfnod byr y cedwir gwybodaeth am y llythyr sy'n caniatáu argraffu ac anfon. Ar ôl ei anfon, bydd data yn cael eu cadw am 90 diwrnod i ganiatáu monitro perfformiad y gwasanaeth ac mae'n cael eu dileu wedyn.

Gwasanaeth negeseuon testun

Bydd Gov.uk Notify neu Voodoo yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth negeseuon testun a ddefnyddir gan InHealth i anfon negeseuon testun at gleifion mewn perthynas â'u hapwyntiadau. I

gefnogi hyn, mae eich rhif ffôn symudol ac amser/lleoliad eich apwyntiadau yn cael eu rhannu. Defnyddir y data hwn at y diben hwn yn unig ac fe'i cedwir am gyfnod byr i ganiatáu monitro perfformiad gwasanaeth.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth am hyd contract peilot Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Ar ôl y cyfnod hwn, byddwn ni (gan gynnwys Aidence a HLH) yn trosglwyddo'ch data a'ch delweddau yn ddiogel i'r darparwr newydd dan gyfarwyddyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac yna'n dileu'r holl ddata personol mewn modd diogel.

Pwy sydd â mynediad at eich data personol?

Mae'r trefniadau diogelwch sy'n diogelu eich preifatrwydd yn sicrhau bod staff sy'n ymwneud â darparu Gwasanaeth Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint yn unig yn cael mynediad at eich data, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'ch gofal sy'n gweithio ar gyfer Inhealth, Aidence, HLH neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a dim ond at ddibenion gofal uniongyrchol.

Sut y byddwn yn cyfathrebu â chi?

Byddwn yn cyfathrebu â chi trwy lythyr a neges destun (SMS) ynglŷn â'ch Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint. Os hoffech siarad â ni am eich dewisiadau cyfathrebu, ffoniwch y Swyddfa Apwyntiadau.

Pa sail gyfreithiol sydd gyda ni ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth?

Comisiynwyd InHealth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i ddarparu'r gwasanaeth hwn i gefnogi eich gofal cleifion uniongyrchol. Caiff cleifion eu hatgyfeirio at y gwasanaeth drwy eich meddygfa. Os ydych chi'n gymwys i gael sgan CT, bydd y delweddau'n cael eu darparu i Aidence, HLH a Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a byddwn yn darparu canlyniadau yn ôl i'ch meddygfa a chi'ch hun. Os dydych chi ddim yn gymwys i gael sgan CT, byddwn yn darparu'r canlyniadau i'ch meddygfa ac yn ysgrifenedig i chi'ch hun.

Sut ydym ni'n diogelu eich gwybodaeth?

Ein nod yw sicrhau bod yr holl ddata personol yn cael ei ddal a'i brosesu mewn modd diogel a dim ond gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â diddordeb dilys yn eich gofal sy'n cael mynediad at eich data rydym yn ei ganiatáu. Mae enghreifftiau o'n diogelwch yn cynnwys:

- Amgryptio – sy'n golygu bod y wybodaeth wedi'i chuddio fel na ellir ei darllen heb wybodaeth arbennig (megis cyfrinair)
- Rheoli mynediad at systemau a rhwydweithiau, mae hyn yn ein galluogi i atal pobl nad ydynt yn cael gweld eich data rhag cael mynediad ato.
- Rheoli mynediad ar gyfer gwahanol rolau defnyddwyr, felly dim ond data penodol sy'n ofynnol ar gyfer rôl benodol sy'n hygyrch
- Hyfforddi ein staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i drin data yn gyfrifol ac yn ddiogel, gan gynnwys sut a phryd i adrodd os aiff rhywbeth o'i le
- Profi ein technoleg yn rheolaidd gan gynnwys cadw'n gyfoes â'r diweddariadau diogelwch diweddaraf.

Ni fydd unrhyw ddata personol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Allwch chi gael gafael ar y wybodaeth sydd gennym ni?

Wrth gwrs, anfonwch e-bost at y Swyddog Diogelu Data (manylion isod) i ofyn am Ffurflen Gais Am Fynediad at Ddata gan y Testun.

Fydd fy nata yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth arall?

Efallai y byddwn yn defnyddio data clinigol a radiolegol o wiriadau iechyd yr ysgyfaint at ddibenion ymchwil a hyfforddiant yn y dyfodol. Mae hyn yn ein galluogi i reoli ansawdd, a gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Bydd data'n ddienw oni bai bod angen cysylltu cofnodion gwiriad iechyd yr ysgyfaint â chofnodion iechyd eraill. Os dydych chi ddim am i'ch data gael ei ddefnyddio at y diben hwn, rhowch wybod i ni yn ystod eich gwiriad iechyd ysgyfaint. Dydy hyn ddim yn eich atal rhag cymryd rhan yn agweddau eraill rhaglen gwiriad iechyd yr ysgyfaint.

Ble alla i gael rhagor o fanylion?

Os oes unrhyw ymholiadau neu bryderon gyda chi am sut rydym yn trin eich data personol, cysylltwch â:

Mr Michael Pennington (Swyddog Diogelu Data)
InHealth Intelligence, Unity House, Road Five, Ystad Ddiwydianno Winsford, Winsford, Swydd Gaer, CW7 3RB
E-bost: dpo@inhealth-intelligence.com
Ffôn: 01270 765124

I gael cyngor annibynnol am faterion diogelu data, preifatrwydd a rhannu data, mae Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) bob amser yn hapus i helpu:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill,
Ffordd Churchill,
Caerdydd
CF10 2HH
Ffôn 0330 414 6421
E-bost: wales@ico.org.uk